


WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyhoeddwyd: Ionawr 2012
Cyfeirnod y ddogfen: 132A2012

# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac mae'n cael ei benodi gan Ei Mawrhydi Y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'i chyrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, awdurdodau'r heddlu, awdurdodau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'n flynyddol y rhan fwyaf o arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y £15 biliwn o gyllid a bleidleisir i Gymru'n flynyddol gan Senedd San Steffan. Caiff bron i £5.5 biliwn o'r cyllid hwn ei drosglwyddo gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a grantiau penodol. Mae llywodraeth leol, yn ei thro, yn codi £2.1 biliwn arall drwy'r dreth gyngor a threthi busnes.

Yn ogystal ag ymgymryd ag archwilio ariannol, rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw edrych ar sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth gyfllwyno gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hyrwyddo gwelliant, fel bod pobl yng Nghymru yn elwa o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymroddedig i nodi a lledaenu arfer da ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Cafodd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, gefnogaeth gan Huw Lloyd Jones a John Roberts a chydweithwyr o dan gyfarwyddyd Alan Morris i gynnal yr Asesiad o Welliant ac i gynhyrchu'r adroddiad hwn.

# Cynnwys


**Crynodeb ac argymhellion a chynigion ar gyfer gwella** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 8

Mae gwaith y Cyngor wrth gynllunio gwelliannau, monitro a gwerthuso'i weithgareddau yn cyfrannu'n dda, ar sawl cyfrif, at gyflwyno gwasanaethau gwell mewn meysydd blaenoriaeth 9

Mae gwaith cynllunio gwelliannau'r Cyngor a'i drefniadau i gyflwyno gwelliant yn gadarn ar bron pob cyfrif 10

Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno gwelliannau yn y rhan fwyaf o'i feysydd blaenoriaeth 18

Er gwaethaf rhai materion sy'n parhau ynghylch ansawdd data, mae gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor wedi parhau i wella yn ystod 2010-11 ond methodd gwasanaethau ar gyfer pobl ddigartref â chyrraedd targedau ac fe wnaeth perfformiad waethygu 18

Mae Estyn wedi adrodd bod gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc yn dda gyda rhagolygon gwella da 22

Mae perfformiad yn parhau i wella yn y rhan fwyaf o agweddau ar waith y Cyngor i wella ffyniant y sir ac i gynnal yr ardal yn lle diogel a dymunol 24

Mae trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor drwy gydol y flwyddyn yn cyfrannu'n dda at ddiwylliant o hunanwerthuso, ond nid yw'r diwylliant hwn yn cael ei adlewyrchu'n llawn yn yr hunanasesiad blynyddol 27

**Atodiadau**

**Atodiad 1**
Statws yr adroddiad hwn 29

**Atodiad 2**
Gwybodaeth ddefnyddiol am Gonwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 30

**Atodiad 3**
Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 31

**Atodiad 4**
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 33

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd ar ba mor dda mae Cynghorau Cymru, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol yn cynllunio ar gyfer gwella a pha mor dda maent yn cyflwyno'u gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith Swyddfa Archwilio Cymru a'r arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o welliant Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) o gymharu â'r llynedd, a'i drefniadau ar gyfer sicrhau gwelliant pellach. Mae tair prif ran i'r adroddiad, sy'n ymdrin â sut mae'r Cyngor yn mynd ati i gynllunio, cyflawni a gwerthuso gwelliant.

2 Mae adran gyntaf yr adroddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar flaen-gynllunio'r Cyngor o ran ei waith ym mlwyddyn ariannol 2011-12 a'r trefniadau sydd yn ategu'r gwaith hwnnw. Mae'r ail adran, cyflawni'r gwelliannau, yn edrych yn ôl ar berfformiad y Cyngor mewn meysydd blaenoriaeth yn ystod 2010-11. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi cyfeirio at berfformiad mwy diweddar yn y meysydd hynny megis addysg, ble y mae data cyhoeddedig ar gael. Yn nhrydydd adran yr adroddiad hwn, rydym yn gwneud sylwadau ar y ffordd mae'r Cyngor yn gwerthuso ei berfformiad, gyda phwyslais arbennig ar hunanasesiad y Cyngor o'i waith yn 2010-11.

3 At ei gilydd, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad bod gwaith cynllunio ar gyfer gwelliannau, monitro a gwerthuso'r Cyngor o'i weithgareddau yn cyfrannu'n dda, ar sawl cyfrif, at gyflwyno gwasanaethau gwell mewn meysydd blaenoriaeth.

4 Canfuom fod gwaith cynllunio gwelliannau'r Cyngor a'i drefniadau i gyflawni gwelliant yn gadarn ar bron bob cyfrif. Yn benodol, canfuom:

- fod y Cyngor wedi ymateb yn dda i gynigion blaenorol ar gyfer gwella;
- bod y Cyngor yn parhau i weithio'n dda gydag ystod o bartneriaid ond nid ydyw wedi chwarae rôl flaenllawr o fewn Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru;
- bod aelodau etholedig yn parhau i gynnig arweinyddiaeth gadarn ynghylch cyflwyno gwasanaethau a chraffu effeithiol wrth herio polisi a pherfformiad; a
- bod y Cyngor yn adnabod gwerth ymgysylltu â'r cyhoedd a bod ganddo brosesau da ar gyfer rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd ac ymgynghori â nhw, gydag enghreifftiau mwy arunig o ddinasyddion yn gallu llywio cyflwyno gwasanaethau.

5 Canfuom hefyd fod y Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno gwelliannau yn y rhan fwyaf o'i feysydd blaenoriaeth.

6 Mewn perthynas â gwasanaethau'r Cyngor i gefnogi pobl mewn angen, canfuom fod datblygiad parhaus y Cyngor o ofal cymdeithasol i oedolion fwyfwy yn cefnogi pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth. Bu gwelliant yn ansawdd y gofal ac yng nghysondeb yr arfer wrth ddarparu gofal cymdeithasol i blant, ond mae rhai materion yn parhau o ran ansawdd y data a ddefnyddir i reoli perfformiad. Fodd bynnag, ni wnaeth perfformiad y Cyngor o ran atal digartrefedd a darparu gwasanaethau i'r rhai sy'n ddigartref wella yn ôl y bwriad yn 2010-11.

7 O ran gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer helpu pobl i ddatblygu, mae Estyn wedi adrodd bod gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghonwy yn dda a bod ganddynt ragolygon gwella addawol. Fodd bynnag, mae lefel y cronfeydd ariannol wrth gefn sy'n cael eu dal gan ysgolion yn parhau'n rhy uchel.

8 Mae perfformiad yn parhau i wella yn y rhan fwyaf o agweddau ar waith y Cyngor i wella ffyniant y sir ac i gynnal yr ardal fel man diogel a dymunol. Mae data yn awgrymu bod gwaith y Cyngor yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol. Fe wnaeth y Cyngor ostwng cyfran y gwastraff trefol a anfonir at safleoedd tirlenwi i 57.4 y cant yn 2010-11, er, mae'r rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru yn anfon llai o'u gwastraff i safleoedd tirlenwi na Chonwy. Mae'r rhan fwyaf o agweddau ar y gwaith o gadw ffyrdd, mannau agored a thraethau'r sir yn lân yn mynd yn eu blaen yn dda.

9 Yn olaf, mae'r adroddiad yn amlinellu ein barnau ar asesiad y Cyngor ei hun o'i berfformiad a'i drefniadau. Daethom i'r casgliad fod trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor drwy gydol y flwyddyn yn cyfrannu'n dda at ddiwylliant o hunanwerthuso, ond na chaiff y diwylliant hwn ei adlewyrchu'n llawn yn yr hunanasesiad blynyddol.

# Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

10 Nid oes unrhyw argymhellion ffurfiol ond gwneir y cynigion canlynol ar gyfer gwella i'r Cyngor er mwyn cynorthwyo'r gwaith o sicrhau gwelliant.

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **C1** | Dylai'r Cyngor sicrhau bod cyfrifoldeb am gywirdeb a chadernid data perfformiad yn cael ei neilltuo'n glir mewn gwasanaethau a bod staff y mae cynhyrchu data yn rhan o'u gwaith yn hollol ymwybodol o sut y dylid cadw cofnodion. |
| **C2** | Fel rhan o'i gylch gwella ei hun, dylai'r Cyngor ystyried yr awgrymiadau ar gyfer gwella sydd wedi'u cynnwys yn ein hadolygiadau o ymgysylltu â'r cyhoedd. |

# Adroddiad manwl



# Cyflwyniad

11 Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Ar dudalen 2 cewch esboniad byr o'r hyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei wneud.

12 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd bob blwyddyn ar ba mor dda mae cynghorau Cymru, awdurdodau tân ac achub, a'r parciau cenedlaethol yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn cyflwyno'u gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi mwy o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth gan arolygiaethau Cymru, Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru (AGGCC), a Bwrdd yr Iaith Gymraeg, rydym wedi creu darlun o'r hyn mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio'i gyflawni a sut mae'n mynd ati i wneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn amlinellu'r cynnydd mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad y Cyngor ei hun.

13 Trwy gydol yr adroddiad, amlinellwn yr hyn mae angen i'r Cyngor ei wneud i wella'i wasanaethau. O gofio'r ystod eang o wasanaethau sy'n cael eu darparu a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol i ni beidio â dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu:

- argymell i weinidogion Llywodraeth Cymru ei bod yn ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gydag argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os gwneir argymhelliad ffurfiol rhaid i'r Cyngor ymateb i'r argymhelliad hwnnw'n gyhoeddus o fewn 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os gwnawn gynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo wneud rhywbeth ynglŷn â hwy, a byddwn yn mynd ar drywydd yr hyn sy'n digwydd.

14 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Seiliwyd y casgliadau yn yr adroddiad hwn ar ein gwybodaeth gronnus a'n gwybodaeth ar y cyd, a chanfyddiadau'r gwaith y gwnaethom roi blaenoriaeth i'w wneud eleni.

15 Rydym am gael gwybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch, ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn i ni drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Mae gwaith y Cyngor wrth gynllunio gwelliannau, monitro a gwerthuso'i weithgareddau yn cyfrannu'n dda, ar sawl cyfrif, at gyflwyno gwasanaethau gwell mewn meysydd blaenoriaeth

16 Ym Medi 2011, ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol lythyr i Brif Weithredwr Dros Dro y Cyngor. Roedd y llythyr yn cynnwys:

- crynodeb o gynnydd y Cyngor ynghylch meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn Asesiad Corfforaethol 2010;
- asesiad yr Archwilydd Cyffredinol o gydymffurfiaeth y Cyngor â'i ymrwymiadau statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus; a
- sylwebaeth fer ar faterion perthnasol a ddaeth i'r amlwg ers i ni gyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol 2010 yn Ionawr 2011, gan gynnwys sylwadau ar sut roedd y Cyngor yn mynd i'r afael â heriau ariannol.

17 Mae llythyr yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Medi yn cynnwys asesiad cadarnhaol o gynnydd y Cyngor mewn perthynas â'r tri maes i'w gwella y gwnaethom eu cynnwys yn Asesiad Corfforaethol 2010. Yn gryno, fe wnaethom adrodd:

- bod y Cyngor wedi datblygu a mabwysiadu'n ffurfiol fframwaith rheoli perfformiad hollgynhwysol sy'n cefnogi ei gynnydd wrth ddefnyddio deilliannau a mesurau priodol eraill yn well i ddiffinio ei flaenoriaethau;
- bod y Cyngor yn gwneud mwy o ddefnydd o ddangosyddion lleol sydd ynghlwm wrth amcanion gwella er mwyn monitro a meincnodi gwelliant; a
- bod y Cyngor wedi gwella'i broses cynllunio ariannol drwy gynyddu rhan aelodau a staff yn y broses honno yn sylweddol.

18 Fe wnaeth y llythyr ddatgan bod yr Archwilydd Cyffredinol yn fodlon bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur yn ystod blwyddyn ariannol 2011-12. Cyfrannodd pedwar prif reswm at ein casgliad.

19 Mae'r ddau gyntaf o blith y rhesymau hyn yn gysylltiedig â'r digwyddiadau yn dilyn gwahardd cyn Brif Weithredwr y Cyngor ym Mawrth 2010 a'i ymddiswyddiad dilynol ym Mehefin 2011. Fe wnaethom adrodd yn llythyr yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Medi bod y Cyngor wedi:

- cynnal ei fomentwm yn ystod cyfnod gwaharddiad y cyn Brif Weithredwr, a'i fod wedi rheoli'n effeithiol y risgiau i'w allu i fynd i'r afael â heriau cyfredol a heriau'r dyfodol; a
- dilyn prosesau priodol ynghylch ymddiswyddiad ei gyn Brif Weithredwr ac wedi penderfynu sut byddai'n penodi ei olynydd.

20 Mae'r broses o benodi Prif Weithredwr newydd bellach wedi'i chwblhau. Penododd y Cyngor ei gyn Swyddog Monitro i'r swydd ar 29 Medi 2011. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi cytuno i ailstrwythuro ei uwch dîm rheoli. Mae wedi penodi staff yn fewnol i ddwy swydd newydd ar gyfer Cyfarwyddwyr Strategol a bydd yn hysbysebu am drydydd Cyfarwyddwr Strategol i ddod â chapasiti, sgiliau ac arbenigedd ychwanegol i'r uwch dîm.

## Mae gwaith cynllunio gwelliannau'r Cyngor a'i drefniadau i gyflwyno gwelliant yn gadarn ar bron pob cyfrif

21 Roedd y ddau reswm arall a wnaeth ategu casgliad yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan y Mesur fel a ganlyn:

- roedd y Cyngor wedi mabwysiadu fframwaith a sefydlodd ddull cyson o reoli perfformiad ar draws y sefydliad, gyda ffocws ar nodi a chyflawni deilliannau i'r cyhoedd; ac
- roedd y Cyngor yn parhau i chwilio am ffyrdd o wella ymhellach broses hunanasesu sydd eisoes yn gadarn, sy'n llywio gwelliant corfforaethol ac sy'n cefnogi datblygiad staff.

22 Fel rhan o'i system rheoli perfformiad, mae uwch gynghorwyr ac uwch swyddogion yn cynnal adolygiadau perfformiad ddwywaith y flwyddyn ym mhob maes gwasanaeth. Fe wnaethom fynychu dau adolygiad o'r fath yn ystod y flwyddyn, gan ddod i'r casgliad yn y ddau achos bod yr adolygiadau yn gyfryngau effeithiol ar gyfer monitro perfformiad gwasanaeth a nodi'r meysydd hynny o danberfformio yr oedd angen gwelliant yn eu cylch.

23 Mae adolygiadau meysydd gwasanaeth yn canolbwyntio ar waith gwasanaeth unigol, er fod nifer o wasanaethau yn cyfrannu at gyflawni rhai o flaenoriaethau'r Cyngor. Mae gan y Cyngor strwythurau mewn lle er mwyn sicrhau ei fod yn cadw ei ffocws ar ei flaenoriaethau. Rydym yn argymell ym mharagraff 50 yr adroddiad hwn y gall pwyllgorau craffu gyfrannu'n gadarnhaol i godi proffil y blaenoriaethau corfforaethol o fewn busnes y Cyngor.

24 Er bod gan y Cyngor ddull cadarn o reoli perfformiad, rydym wedi nodi rhai meysydd sydd â lle i wella ansawdd y data sy'n sylfaen i asesiad y Cyngor o'i berfformiad. Fe wnaeth archwilwyr y Cyngor oleddfu neu ddiwygio saith o'r 41 o ddangosyddion perfformiad 2010-11 a archwiliwyd ganddynt, ac mae AGGCC hefyd wedi cyfeirio yn ei Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol at faterion yn ymwneud ag ansawdd data mewn rhai dangosyddion perfformiad eraill. Cyfrannodd materion yn ymwneud ag ansawdd data at y ffaith nad oedd y Cyngor yn gallu dangos ei fod wedi cyflawni un o dargedau'r Cytundeb Canlyniadau y gwnaeth gytuno â Llywodraeth Cymru. O ganlyniad yn rhannol, mae'n bosibl na chaiff y Cyngor y cyllid grant llawn.

25 Rydym yn ymhelaethu yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn ar ddull y Cyngor o asesu a gwerthuso ei drefniadau a'i berfformiad ei hun.

**Mae'r Cyngor wedi ymateb yn dda i gynigion blaenorol ar gyfer gwella**

26 Yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2010, gwnaethom bedwar cynnig ar gyfer gwella, pob un ohonynt yn gysylltiedig â'r ffordd yr oedd y Cyngor wedi diffinio a rhoi cyhoeddusrwydd i'w amcanion gwella ar gyfer 2010-11.

27 Mae'r Cyngor wedi ymateb yn dda i'r cynigion hyn. Mae ffocws cliriach i'r amcanion gwella ar gyfer 2011-12 nag oedd i'r rhai a osodwyd ar gyfer 2010-11. Maent yn diffinio'n fanylach uchelgeisiau'r Cyngor yn y meysydd dan sylw a'r mesurau a fydd yn adlewyrchu cynnydd y Cyngor.

## Cynigion ar gyfer gwella, Ionawr 2010

Wrth baratoi ei Gynllun Gweithredu ar gyfer 2011-12, dylai'r Cyngor:

- sicrhau bod ei gynllun a'r Amcanion Gwella cysylltiedig yn haws eu deall i randdeiliaid a diddordeb;
- mireinio geiriad ei Amcanion Gwella er mwyn sicrhau eu bod:
  - clir – yn nodi'r gwelliannau y gall dinasyddion eu disgwyl;
  - cadarn – gyda diffiniadau pendant o lwyddiant boed yn feintiol neu'n ansoddol; ac
  - amlwg – yn gallu cael eu hategu gan amcanion ond nid o reidrwydd gan dystiolaeth fesuredig na meintiol;
- sicrhau bod y dystiolaeth a ddewiswyd i ategu pob Amcan Gwella yn ymwneud yn glir â'r canlyniadau y dylai dinasyddion eu disgwyl; ac
- yn cynnwys targedau ar gyfer mesurau meintiol y mae'n eu dewis i gefnogi ei Amcanion Gwella.

28 Fe wnaeth llythyr yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Medi hefyd grynhoi ein canfyddiadau mewn perthynas â rheolaeth y Cyngor o'i weithlu a'i gynllunio ariannol. Canfuom:

- Fod y Cyngor wedi cwblhau'r broses ar gyfer gwerthuso swyddi a'i fod yn parhau i gyflawni gwelliannau o ran absenoldeb oherwydd salwch. Er bod cyfran y staff a oedd yn cwblhau arfarniadau blynyddol o berfformiad yn gwella, roedd yn rhy isel o hyd.
- Bod y Cyngor wedi gwella'i broses cynllunio ariannol, gan fabwysiadu dull blaengar o nodi arbedion. Fodd bynnag, awgrymon y byddai llunio Cynllun Corfforaethol newydd yn cynnig cyfle gwerthfawr i gyfosod cynllunio ariannol yn fwy penodol ag uchelgeisiau'r Cyngor.

29 Ym mharagraffau 30 i 37, rydym yn rhoi diweddariadau byr ynghylch y ddau asesiad uchod ac yn crynhoi canfyddiadau gwaith archwilio pellach y gwnaethom adrodd arno ers cyhoeddi llythyr yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Medi. Mae'r gwaith pellach hwn yn canolbwyntio ar nifer o faterion cyffredin sy'n wynebu cynghorau ledled Cymru.

30 Adroddom ym mis Medi fod y Cyngor yn rheoli niferoedd staff trwy broses gadarn o adolygu'r holl swyddi gwag wrth iddynt godi ac, fesul achos, yn herio'r angen am benodi staff i'r swyddi gwag. Nid yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw ddiswyddiadau ar raddfa fawr hyd yn hyn, ond disgynnodd nifer cyfartalog y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn a gofnodwyd yn 2010-11 tua dau y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Er gwaethaf ymagwedd fwy rhagweithiol nag o'r blaen tuag at reoli absenoldeb oherwydd salwch, mae ffigurau ar gyfer 2010-11 yn dangos bod

staff wedi colli 10.86 diwrnod yr un ar gyfartaledd o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch. Mae'r gyfradd absenoldeb hon ychydig yn is yn unig na'r flwyddyn flaenorol, ac mae'n parhau uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 10.34 diwrnod fesul aelod staff.

31 Fe wnaethom gynnwys cynnig ar gyfer gwella yn llythyr yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Medi, sef y dylai'r Cyngor gynyddu cyfran y staff sy'n cwblhau'r broses arfarnu flynyddol. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Chyngor Sir Ddinbych i symleiddio a gwella trefniadau arfarnu yn y ddau awdurdod.

32 Mae llythyr mis Medi yn cyfeirio at ddull arloesol y Cyngor o arbed costau. Trwy dynnu adnoddau'n raddol o'r meysydd â'r flaenoriaeth isaf yn gyntaf, mae'r Cyngor wedi diogelu amcanion allweddol o ran cyflwyno gwasanaethau. Mae'r dull hwn wedi nodi arbedion effeithlonrwydd ac arbedion o bron £6 miliwn yng nghyllideb 2011-12, yn unol â'r gofyn. Fodd bynnag, fe wnaethom nodi hefyd fod y gwaith o baratoi Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor ar gyfer 2012-16 yn cynnig cyfle i'r Cyngor gyfosod ei gyllid yn fwy penodol â'i uchelgeisiau. Er y gall rhai blaenoriaethau gael eu cyflawni o fewn cyllidebau presennol gwasanaethau, gall fod angen ychydig o ailddyrannu cyfalaf a chyllidebau refeniw ar eraill o gymharu â phatrymau gwariant diweddar.

33 Cyfeiriwn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, er enghraifft, at gost gynyddol lleoedd mewn cartrefi gofal i bobl hŷn. Os yw'r costau uwch hyn yn arwain at lai o adnoddau ar gael i helpu pobl hŷn gynnal eu hannibyniaeth, mae risg y bydd mwy a mwy o bobl yn mynd i mewn i ofal, gan gynyddu costau ymhellach. Felly, gall fod angen ailddyrannu adnoddau o fannau eraill yng nghyllideb y Cyngor er mwyn parhau i fynd ar drywydd amcan y Cyngor sef hyrwyddo byw'n annibynnol. Mae'r Cyngor wedi cydnabod gwerth posibl cyfosod ei Gynllun Corfforaethol newydd yn gliriach â'i gynllunio ariannol ac mae wedi cytuno paratoi Cynllun Ariannol Tymor Canol.

34 Mae dull y Cyngor o arbed costau, serch hynny, wedi'i alluogi i ymdopi'n dda hyd yn hyn â gostyngiad mewn lefelau cyllid. Er gwaethaf gostyngiad pellach o 0.43 y cant yng nghyllid Llywodraeth Cymru, mae camau cynnar gwaith paratoi cyllideb 2012-13 yn awgrymu diffyg sy'n llai na £300,000. Mae hyn yn rhagdybio y bydd bron £3.5 miliwn o arbedion a gynlluniwyd eisoes a chynnydd yn refeniw'r dreth gyngor yn cael eu gwireddu. Mae gwasanaethau unigol, lle bo'r angen, wedi cyflwyno achosion busnes am gyllid ychwanegol mewn da bryd er mwyn caniatáu eu herio'n drylwyr cyn bod cynghorwyr yn penderfynu p'un ai i'w cymeradwyo ai peidio.

35 Yn yr un modd ag ym mhob cyngor, mae cyflenwyr allanol yn darparu gwasanaethau penodol ar ran y Cyngor o dan delerau contract. Mae'r Cyngor wedi bod yn datblygu ei ddull o ddelio â chaffael, rheoli a monitro contractau am wasanaethau mewn ymateb i rai materion sydd wedi codi'n ddiweddar, ond mae nifer o agweddau y gellid eu gwella yn y maes hwn o waith y Cyngor. Byddwn yn adrodd yn fanylach yn ystod 2012.

36 Mae archwilwyr y Cyngor wedi dweud wrthym ni fod gweinyddu grantiau wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 2009-10, cododd yr archwilwyr bryderon ynghylch 22 y cant o'r grantiau a archwiliwyd o gymharu â 35 y cant yn 2008-09. Hyd yn hyn, maent wedi codi pryderon am bump o'r 21 grant a ardystiwyd eisoes yn 2010-11. O'r 23 hawl am

grant a gyflwynwyd i'w harchwilio yn 2010-11, dim ond tri oedd yn hwyr. Er bod hyn yn dangos bod cyfleoedd o hyd i wella, mae gan y Cyngor yn gyffredinol drefniadau boddhaol ar gyfer paratoi ei grantiau a'i ffurflenni grantiau, ac mae ganddo systemau mewnol ar waith i ategu gwaith ardystio grantiau.

37 Fodd bynnag, mae pryderon wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar ynghylch gwaith y Cyngor yn gweinyddu grant penodol ar ran Llywodraeth Cymru. Mae archwilwyr mewnol y Cyngor yn ymchwilio i'r amgylchiadau a wnaeth arwain at awdurdodi taliadau grant cyn bod derbynnydd y grant wedi mynd i'r gwariant y bwriadwyd y taliad ar ei gyfer.

**Mae'r Cyngor yn parhau i weithio'n dda gydag ystod o bartneriaid ond nid ydyw wedi chwarae rôl flaenllawr o fewn Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru**

38 Nid oedd cyn Brif Weithredwr y Cyngor, a ymddiswyddodd ym mis Mehefin 2011, yn arwain un o bedair rhaglen Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Bwriad y Prif Weithredwr newydd yw y dylai'r Cyngor ymgymryd â rôl fwy rhagweithiol wrth arwain datblygiadau yn y dyfodol.

39 Serch hynny, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo mewn egwyddor yr Achosion Busnes Amlinellol ar gyfer:

- Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella ac Effeithiolrwydd Ysgolion; a
- Chanolbwynt Comisiynu, Caffael a Monitro Rhanbarthol, wedi'i anelu at sicrhau mwy o effeithlonrwydd wrth gaffael ac yna monitro pecynnau gofal preswyl nifer isel, cost uchel i blant ac oedolion.

40 Yn llythyr yr Archwilydd Cyffredinol i'r Cyngor ym mis Medi, adroddom fod y Cyngor wedi cytuno ar Ddatganiad o Gydweithredu i ddiffinio'i ymagwedd at fentrau cydweithredu yn y dyfodol. Mae'r Datganiad hwn yn mynegi'n glir ymrwymiad y Cyngor i fwy o gydweithredu fel dull o 'sicrhau gwelliannau mewn ansawdd gwasanaethau, yn nygnwch gwasanaethau ac mewn gwerth am arian i'w drigolion'. Fodd bynnag, mae'r Datganiad hefyd yn mynegi'n glir bod rhaid i werth ychwanegol ddeillio o gydweithredu, ac mae'n rhaid cael trefniadau llywodraethu sicr, rheolaeth effeithiol ar risg a rheolaeth prosiectau gydag adnoddau priodol i danategu cynnydd pob menter gydweithredol.

41 Hefyd, mae'r Cyngor wedi datblygu dull o asesu manteision cydweithredu'n agosach â phartneriaid. Bellach, mae'n dechrau cymhwyso'r dull hwnnw i gydweithrediadau newydd neu ddarpar gydweithrediadau. Erbyn Mai 2012, mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu y bydd wedi asesu'r manteision a gyflawnir o gydweithrediadau a phartneriaethau presennol. Mae'r dull hwn yn darparu tystiolaeth hanfodol i ategu penderfyniadau'r Cyngor mewn perthynas â chydweithredu.

42 Gan ddefnyddio'i Ddatganiad o Gydweithredu, mae cynghorwyr ac uwch swyddogion wedi mynegi amheuon ynghylch agweddau ar y trefniadau arfaethedig ar gyfer rhai o'r prosiectau sy'n deillio o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae rhai partneriaid eraill a Llywodraeth Cymru'n tybio bod amheuon o'r fath yn adlewyrchu dull gorbwyllog. Fodd bynnag, mae potensial gan feirniadaeth adeiladol a nodi problemau yng ngham yr Achos Busnes Amlinellol i gryfhau'r Achosion Busnes Llawn yn eu tro, ac osgoi'r niwed o golli ymrwymiad yn ddiweddarach yn ystod y cynllunio.

43 Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, sy'n cynnwys gwasanaethau cyhoeddus eraill ynghyd â chwe chyngor gogledd Cymru, yn arwain pedair rhaglen waith. Mae pob un ohonynt yn cynnwys un neu fwy o brosiectau cydweithredol sylweddol posibl. Mae partneriaid wedi buddsoddi llawer o amser ac adnoddau yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn dros y ddwy flynedd ddiwethaf mewn ymateb i anogaeth Llywodraeth Cymru a'r angen cynyddol am ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd. Fodd bynnag, mae'r prosiectau hynny a fydd yn integreiddio gwasanaethau ar draws gogledd Cymru oll yn ymgodymu, ar wahân yn aml, â materion anodd fel:

- llywodraethu'r gwasanaethau ar y cyd arfaethedig, a sut gallai pob un o'r cynghorau ansoddol gadw ac arfer eu hatebolrwydd am gost ac ansawdd y gwasanaethau a gyflwynir ar eu rhan; a
- sut i ddelio â gwahaniaethau yn nhelerau ac amodau staff a all drosglwyddo i'r gwasanaeth integredig newydd, wedi iddo gael ei sefydlu.

44 Adroddodd AGGCC fod y Cyngor wedi bod yn weithgar wrth gydweithredu ag asiantaethau eraill i gyflwyno gwasanaethau cymdeithasol ar lefelau rhanbarthol ac isranbarthol. Rydym wedi cyfeirio uchod at y gwaith parhaus o sefydlu Canolbwynt Comisiynu, Caffael a Monitro Rhanbarthol gyda'r nod o wneud arbedion mewn perthynas â chaffael lleoliadau preswyl arbenigol, uchel eu cost i blant ac oedolion. Hefyd, mae'r Cyngor wedi ail-gomisiynu ei wasanaeth eiriolaeth i blant mewn partneriaeth â Chynghorau Gwynedd ac Ynys Môn. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi dod ar draws anawsterau mewn agweddau ar ei waith mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn enwedig o ran darparu gofal cymdeithasol i bobl â phroblemau iechyd meddwl.

45 Hefyd, mae Estyn wedi rhoi sylwadau cadarnhaol am waith y Cyngor mewn partneriaeth, yn gysylltiedig â'i wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae adroddiad Estyn yn dilyn ei arolygiad ym mis Mawrth 2011 yn barnu bod gweithio mewn partneriaeth yn dda, ac mae'n datgan:

- 'Mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn chwarae rhan allweddol mewn arwain cydweithio yn dda iawn. Mae'n dod â grwpiau ynghyd yn effeithiol, fel timau iechyd a gofal cymdeithasol, yr heddlu a gweithwyr addysg. O ganlyniad, mae'r grwpiau hyn yn meithrin dealltwriaeth dda ar y cyd o anghenion pobl ifanc a dysgwyr....'

46 Fe wnaeth adolygiad o bartneriaethau strategol gogledd Cymru, a wnaed yn 2010-11 o dan arweiniaeth Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ar ran chwe chyngor gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, gynnig y dylai partneriaethau strategol lleol ddod yn 'isranbarthol', gyda pharau o gynghorau'n gweithio gyda'i gilydd. Nod y cynnig oedd lleihau'r dyblygu sylweddol sydd ynghlwm wrth waith tua 35 o fforymau strategol a oedd ar waith ar draws rhanbarth gogledd Cymru ar y pryd. Ym Mai 2011, fe wnaeth Byrddau Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych felly gytuno i uno, gan gyfarfod am y tro cyntaf fel un corff ar y cyd ym mis Medi, gyda'r nod o symleiddio gweddill y partneriaethau strategol ymhellach erbyn 2013. Hefyd, mae'r ddau gyngor wedi sefydlu Bwrdd Cydweithredu ac roedd cyfarfod cyntaf ar y cyd dau Bwyllgor Trosolwg a Chraffu y

Partneriaethau ym mis Rhagfyr 2011 er mwyn ystyried sut orau i graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd.

**Mae aelodau etholedig yn parhau i gynnig arweinyddiaeth gadarn ar gyfer cyflwyno gwasanaethau a chraffu effeithiol wrth herio polisi a pherfformiad**

47 Mae Cynghorwyr yn parhau i chwarae rôl amlwg ac effeithiol yng ngwaith y Cyngor. Er gwaethaf cyd-destun wleidyddol a all fod yn fregus, gan mai'r grŵp unigol mwyaf yw'r gwrthblaid, mae Arweinydd y Cyngor wedi cynnal sefydlogrwydd a gyriant y Cabinet clymbleidiol profiadol drwy gydol cyfnod pedair blynedd y Cyngor. Er enghraifft, mae AGGCC wedi adrodd bod deiliad y portffolio iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnig mewnwelediad a chyfeiriad i'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi bod gwaith grŵp gorchwyl a gorffen o gynghorwyr yn adolygu'r cyllid a ddarparwyd gan y Cyngor i'r sector gwirfoddol yn arfer da.

48 Yn ystod 2011, fe wnaethom adolygu trefniadau craffu'r Cyngor. Roedd y thema hon yn un y buom yn edrych arni ar draws pob cyngor yng Nghymru. Yng Nghonwy, daethom i'r casgliad bod trefniadau craffu yn cynnig her effeithiol i ddatblygiad polisi ac i fonitro perfformiad. Yn benodol, gwnaethom ystyried rôl craffu wrth gyflwyno un o amcanion gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-11. Canfuom fod Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu wedi chwarae rhan helaeth ac effeithiol mewn craffu ar, a herio agweddau ar bolisi a pherfformiad a oedd yn gysylltiedig ag ymrwymiad y Cyngor i 'siarad â chymunedau am y tebygolrwydd o lifogydd ac erydu arfordirol, a chanlyniadau posibl hynny'. Hefyd, canfuom fod gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Partneriaeth wedi gwella'r craffu ar berfformiad rhai o bartneriaethau allweddol y Cyngor.

49 Un o gryfderau'r system graffu yng Nghonwy yw pa mor effeithiol y mae cadeiryddion ac is-gadeiryddion y pedwar Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wrth gyfarfod bob mis i ddiweddaru blaengynllun gwaith pob pwyllgor. Mae'r cyfarfodydd hyn yn helpu i sicrhau bod y pynciau sy'n cael eu dewis i'w trafod yn berthnasol a bod amserlennu gwaith craffu â chysylltiad agos o hyd â rhaglen waith y Cabinet.

50 Byddai trefniadau craffu'r Cyngor, fodd bynnag, yn elwa o rai mân addasiadau er mwyn cynyddu ymhellach y ffocws mewn pwyllgorau craffu ar gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'i amcanion gwella. Un o'r meini prawf presennol ar gyfer dewis pob pwnc i'w drafod mewn pwyllgor yw perthnasedd y pwnc hwnnw i flaenoriaethau corfforaethol. Fodd bynnag, byddai nodi'r eitemau hynny sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau corfforaethol ac amcanion gwella yn gliriach ar yr agenda ar gyfer pob cyfarfod yn helpu i ddwysáu ffocws aelodau'r pwyllgor ar y materion hynny.

**Mae'r Cyngor yn adnabod gwerth ymgysylltu â'r cyhoedd ac mae ganddo brosesau da ar gyfer rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd ac ymgynghori â nhw, gydag enghreifftiau mwy arunig o ddinasyddion yn gallu llunio cyflywno gwasanaethau**

51 Fel rhan o'n Hastudiaeth Cymru Gyfan yn 2011, edrychom ar a yw ymgysylltu â'r cyhoedd yn galluogi dinasyddion yng Nghonwy yn helpu i lywio beth mae'r Cyngor yn ei wneud, yn enwedig o ran ei amcan gwella sy'n gysylltiedig â llifogydd ac erydu

arfordirol. Pan gaiff ei wneud yn dda, mae ymgysylltu â'r cyhoedd yn cynnwys yr aelodau hynny o'r gymuned y mae eu lleisiau wedi'u hepgor o drafodaethau gwleidyddol a thrafodaethau ar bolisi yn draddodiadol. Hefyd, mae'n:

- 'helpu pobl i bwyso a mesur amrywiaeth o safbwyntiau a gwrando ar eu barn ei gilydd;
- meithrin dealltwriaeth gyffredin, rheoli gwahaniaethau a sefydlu cyfeiriad ar gyfer symud ymlaen ynghylch materion anodd;
- meithrin ymddiriedaeth a gwella cyfathrebu rhwng y cyhoedd ac arweinwyr; a
- chreu cyfleoedd newydd i ddinasyddion chwarae mwy o ran mewn datrys problemau a gwneud penderfyniadau cyhoeddus'[1].

52 Canfuom fod y cyngor yn ymgysylltu â chymunedau lleol ynghylch y ffordd orau o reoli llifogydd ac erydu arfordirol. Mae llawer o'r wlad yn wynebu risg o lifogydd o afonydd neu o'r môr. Mae hanes o lifogydd ac erydu arfordirol yng Nghonwy ac mae'r Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i atal llifogydd er 1990, pan wnaeth llifogydd sylweddol o'r môr effeithio ar lawer o drigolion. Mae gwaith yn parhau i atgyfnerthu amddiffynfeydd rhag llifogydd o'r môr ac afonydd a chryfhau'r morlin rhag erydiad. Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi defnyddio cyllid Cydgyfeiriant yr Undeb Ewropeaidd i ddechrau cynllun mawr i amddiffyn yr arfordir ym Mae Colwyn, ynghyd â chyfrannu at adfywio'r ardal. Trwy weithio gyda phartneriaid fel Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, mae ymgynghori â'r cyhoedd ac ymgysylltu â dinasyddion yn rhannau pwysig o'r gwaith hwn oherwydd yr effaith bosibl ar drigolion a busnesau lleol.

53 Fe wnaethom nodi bod ymgysylltiad y Cyngor â'r cyhoedd wrth ddatblygu canolfan 'Canolbwynt' chwaraeon dŵr Glan y Môr, Bae Colwyn yn enghraifft o arfer da.

### Arfer da wrth ymgysylltu â'r cyhoedd

Mae canolfan 'Canolbwynt' chwaraeon dŵr Glan y Môr Bae Colwyn yn enghraifft dda o ymgysylltu â'r cyhoedd. Roedd hon yn broses gystadleuol, gyda phenseiri'n cyflwyno syniadau am gyfleuster chwaraeon dŵr a fyddai'n cael ei adeiladu ar ben yr amddiffynfeydd arfordirol newydd. Nid oedd dadl ynghylch yr angen am amddiffynfeydd arfordirol, ac roedd yr ymgysylltu â'r cyhoedd wrth ymgynghori ar bedwar opsiwn yn rhagorol. Roedd opsiwn buddugol yr amddiffynfa arfordirol hefyd yn hyrwyddo adfywio traeth Bae Colwyn a'r promenâd yn sylweddol. Roedd yn ailsefydlu traeth tywod. Roedd y ganolfan chwaraeon dŵr yn nodwedd ychwanegol a newidiodd yr ateb ymarferol o ran amddiffyniad arfordirol yn gyfle i adfywio ardal hon a oedd wedi mynd â'i phen iddi. Mae ymgysylltu â'r cyhoedd wedi helpu'r Cyngor i ddewis dyluniad arloesol sy'n ymgymryd â llawer o sylwadau eraill gan ddarpar ddefnyddwyr chwaraeon dŵr, dinasyddion a rhanddeiliaid yn gyffredinol. Ni ddylid gwneud yn fach o 'werth ychwanegol' posibl y prosiect hwn i ysgogi adfywio ac i ddangos bod gwerth i'w gael o ymgysylltu â'r Cyngor.

1 Cymerwyd y diffiniad o ymgysylltu â'r cyhoedd o wefan 'Public Agenda', 2010.

54 Yn fwy cyffredinol, canfuom fod y Cyngor yn adnabod gwerth ymgysylltu â'r cyhoedd a bod ganddo brosesau da ar gyfer rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd ac ymgynghori â nhw. Fodd bynnag, nid yw gweledigaeth strategol resymegol i roi'r grym i ddinasyddion ddylanwadu ar wasanaethau a'u cyflwyno, a mesurau i werthuso ymgysylltu â'r cyhoedd, wedi'u datblygu'n llawn eto.

55 Serch hynny, mae enghreifftiau da o ymgysylltu sy'n galluogi dinasyddion i lywio'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen. Yn ei Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol ar gyfer 2010-11, fe wnaeth AGGCC adrodd bod ymgynghoriadau ar wefan y Cyngor yn cynnig cyfleoedd i ddinasyddion gyfrannu'n ystyrlon i waith cynllunio a chyflwyno gwasanaethau. Mae pobl sydd ag anableddau neu namau ar y synhwyrau wedi cymryd rhan mewn llunio pecyn gwybodaeth i gleientiaid sydd â nam ar y golwg. Cyhoeddwyd llawlyfr llety yn 2010, a gynhyrchwyd mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol, rhieni, gofalwyr a darparwyr. Mae tystiolaeth gynyddol bod y Cyngor yn ymgysylltu'n effeithiol â dinasyddion mewn ffordd sy'n annog pobl i ddefnyddio gwasanaethau.

## Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno gwelliannau yn y rhan fwyaf o'i feysydd blaenoriaeth

56 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) yn gweithio gyda chynghorau i'w helpu nhw i ddatblygu eu Cynlluniau Iaith Gymraeg statudol sy'n amlinellu'r ffordd y bydd cynghorau yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn y Gymraeg. Mae pob cyngor yn darparu adroddiad monitro blynyddol i'r Bwrdd.

57 Eleni, mae'r mae'r Bwrdd wedi canmol y Cyngor am wella'n sylweddol ei allu i benodi siaradwyr Cymraeg i swyddi ble mae'r gallu i siarad Cymraeg wedi ei ddynodi'n 'hanfodol'. Bu cynnydd yng ngallu'r Cyngor i adnabod a chofnodi sgiliau iaith ei staff, gan arwain at welliant yn ei allu i gynnig gwasanaeth Cymraeg i'r cyhoedd. Mae'r Bwrdd wedi canfod fod angen gwaith pellach er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth contractau a ddyrannwyd i drydydd partïon gyda gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg. Nid oes gan y Cyngor broses ar hyn o bryd ar gyfer asesu effaith ei bolisïau a'i strategaethau ar yr iaith Gymraeg, er fod hynny'n ymrwymiad yn y Cynllun.

58 Yn ogystal â rhoi ei Gynllun Iaith Gymraeg ar waith, dywedodd y Cyngor y byddai, yn 2010-11, yn 'hyrwyddo yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru fel y bydd ein plant yn ymfalchïo yn eu treftadaeth – eu 'Cymreictod' – ac yn fodlon rhannu hyn gyda'u teuluoedd, eu cymunedau a phobl sy'n ymweld â'r ardal.

59 Fe wnaethom sylwadau yn Adroddiad Gwella Blynyddol y llynedd fod amcanion gwella fel y rhain yn peri bod gwerthuso effeithiol yn anodd. Yn ei Adroddiad Blynyddol ar ei berfformiad yn 2010-11, barnodd y Cyngor ei fod wedi bodloni'r amcan hwn, gan ddisgrifio ystod o weithgareddau a gynhaliwyd i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, yn enwedig ymhlith plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, mae'r dangosyddion perfformiad y mae'r Cyngor wedi'u dewis i adlewyrchu cynnydd yn ôl yr amcan hwn yn dangos darlun cymysg. Fe wnaeth cyfran y disgyblion ysgol gynradd a oedd yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ddisgyn ychydig o gymharu â'r llynedd, ac nid oedd fawr o newid mewn ysgolion uwchradd. Mae naw ysgol gynradd sydd wedi'u dynodi'n ysgolion cyfrwng Saesneg yn addysgu o leiaf 25 y cant o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae tair ysgol arall y bu'r Cyngor yn eu cefnogi i groesi'r trothwy hwn heb wneud hynny eto.

### Er gwaethaf rhai materion sy'n parhau ynghylch ansawdd data, mae gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor wedi parhau i wella yn ystod 2010-11 ond methodd gwasanaethau i bobl ddigartref â chyrraedd targedau ac fe wnaeth perfformiad waethygu

60 Mae tri o'r 10 amcan gwella a osododd y Cyngor ar gyfer 2010-11 yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cymorth y mae'n ei gynnig i bobl mewn angen.

**Mae datblygiad parhaus y Cyngor o ran gofal cymdeithasol i oedolion yn cynorthwyo pobl hŷn yn fwyfwy i gynnal eu hannibyniaeth**

61 Meddai'r Cyngor: 'Os ydych chi'n hŷn, byddwn yn eich cynorthwyo chi i gynnal eich annibyniaeth a'ch lle yn y gymuned.' Yn ei Adroddiad Blynyddol, mae'r Cyngor yn rhoi darlun o berfformiad gwell yn ystod y flwyddyn ac mae'n dod i'r casgliad ei fod wedi cyflawni'r hyn y bwriadodd ei gyflawni mewn perthynas â'r amcan gwella hwn. Yn ei Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol, mae AGGCC wedi adrodd bod

2010-11 wedi bod yn flwyddyn gynhyrchiol iawn i'r Cyngor o ran datblygu ei wasanaethau i oedolion.

62 Fe wnaeth cyfran cleientiaid y Cyngor sy'n 65 oed neu'n hŷn ac y mae'n eu cynorthwyo i fyw yn y gymuned yn hytrach na mynd i mewn i ofal preswyl neu ofal nyrsio gynyddu ychydig yn ystod 2010-11. Er bod y ffigur hwn yn parhau fymryn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, fe wnaeth perfformiad Conwy wella tra bod cyfartaledd Cymru wedi gostwng ychydig. Mae'r gwelliant hwn yn adlewyrchu ffocws cynyddol y Cyngor ar 'ailalluogi' – y broses o alluogi pobl i reoli cynifer â phosibl o dasgau bywyd bob dydd ar eu pen eu hunain, yn hytrach na chael pobl eraill i'w gwneud ar eu rhan. Mae'r Cyngor yn mesur effaith y pecynnau gofal y mae'n eu darparu ac mae'n adrodd nad oedd angen gofal mwyach ymhen chwe wythnos ar bron 60 y cant o gleientiaid a oedd yn derbyn gofal byrdymor, neu eu bod wedi gallu trosglwyddo i becynnau gofal llai dwys. Nid oes data cymharol ar gael ar gyfer y dangosydd lleol hwn. Fodd bynnag, fe wnaeth perfformiad Conwy ragori ar y targed a osododd i'w hun ac, ymhen amser, bydd y Cyngor mewn sefyllfa i fonitro tueddiadau yn ei berfformiad ei hun.

63 Yn ei Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol, 2010-11, fe wnaeth AGGCC adrodd bod cyfeiriad hirdymor clir i ddatblygiad a moderneiddio Gwasanaethau Oedolion yn y dyfodol, gan barhau i gyflwyno rhaglen waith sy'n galluogi pobl i barhau i fyw'n annibynnol. Hefyd, yn y Gwasanaethau Oedolion, mae AGGCC yn adrodd y bu gwelliant mewn agweddau ar gynllunio gofal a chyflwyno gwasanaethau'n amserol sy'n diwallu anghenion pobl yn well. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwelliannau pellach cyn y gall fod yn fodlon ei fod yn diwallu anghenion pob defnyddiwr gwasanaeth mewn modd amserol a chyson.

64 Yn ogystal â darparu pecynnau gofal yn y cartref, mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i gynyddu argaeledd tai â gofal ychwanegol lle mae pobl hŷn yn gallu byw'n annibynnol, ond gyda chymorth ar gael pan fo'i angen arnynt. Mae dau gynllun tai â gofal ychwanegol ar agor yn y sir erbyn hyn, a dau arall ar y gweill. Hefyd, mae'r Cyngor yn datblygu gwasanaethau arbenigol mewn ymateb i'r niferoedd cynyddol o bobl sy'n dioddef dementia a chlefyd Alzheimer yn ei boblogaeth. Trwy weithio'n agos â gweithwyr iechyd proffesiynol, mae'r dull hwn yn anelu at ymyrryd yn gynnar a darparu cymorth effeithiol i ofalwyr fel bod pobl yn gallu parhau yn eu cartrefi eu hunain gyda mwy o annibyniaeth, er gwaethaf eu breuder meddyliol.

65 Mae ffocws y Cyngor ar gynnal annibyniaeth pobl hŷn hefyd yn cael ei adlewyrchu mewn cynnydd yn nifer y bobl sydd wedi cael technoleg gynorthwyol, addasiadau i'r cartref ac offer i'w helpu gyda byw bob dydd. Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda chynghorau cyfagos a'r gwasanaeth iechyd i ddarparu offer a thechnoleg gynorthwyol. Bu'n arwain ar brosiect rhanbarthol i fonitro ac ymateb i alwadau gan y cleientiaid hynny sydd wedi cael cyfarpar teleofal. Yn flaenorol, mae AGGCC wedi nodi y dylai'r Cyngor gynyddu'r defnydd ar daliadau uniongyrchol a chymorth hunan-gyfeiriedig. Er y bu cynnydd bach yn nifer y bobl a gafodd daliadau uniongyrchol yn ystod 2010-11, mae AGGCC eto wedi nodi bod yr agwedd hon yn faes i'w ddatblygu.

66 Mewn ymateb i heriau cyfreithiol gan berchenogion cartrefi gofal preifat mewn rhannau eraill o Gymru, mae'r Cyngor wedi penderfynu cynyddu'n sylweddol y ffioedd y mae'n eu talu ar gyfer cleientiaid y mae'n eu cartrefu mewn gofal preswyl neu ofal nyrsio sydd ym mherchenogaeth breifat. Mae'r penderfyniad yma wedi cael gwared ar y risg o weithred cyfreithiol yn erbyn y Cyngor, ac wedi helpu i wella cynaliadwyedd ariannol cartrefi gofal. Yn y tymor byr, mae'r Cyngor wedi datblygu datrysiad ariannol sydd yn osgoi gwneud toriadau yn ei gyllidebau ar gyfer gofal yn y gymuned. Yn y tymor hirach, fodd bynnag, ac yng nghyd-destun yr angen am gyfyngu ar y gyllideb gyfan ar gyfer gwasanaethau oedolion, mae risg y bydd yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer ailalluogi yn prinhau. Gall hyn, yn ei dro, beryglu cynnydd parhaus y Cyngor o ran cefnogi pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth.

67 Mae'r Cyngor wedi gwella ymhellach ei berfformiad cadarn yn osgoi oedi am resymau gofal cymdeithasol wrth drosglwyddo gofal y bobl hynny sydd dros 75 oed. Yn 2010-11, y gyfradd fesul 1,000 o'r boblogaeth oedd oedi mewn 0.08 trosglwyddiad. Dyma'r perfformiad gorau ymhlith holl gynghorau Cymru.

68 Mae AGGCC wedi nodi bod cymorth cynyddol y Cyngor i bobl â chyfrifoldebau gofalu yn gryfder. Fodd bynnag, mae wedi nodi bod cadernid data'r Cyngor mewn perthynas â'r gwasanaethau y mae'n eu darparu i bobl sy'n gofalu am oedolion yn faes i'w wella. Fe wnaeth cyfran y gofalwyr y cynigiwyd asesiad iddynt gynyddu yn 2010-11 ac mae ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, mae data'r Cyngor ei hun yn awgrymu mai dim ond cyfran fechan iawn o'r gofalwyr hynny a gafodd asesiad mewn gwirionedd ac, o'r rheiny, ychydig iawn ohonynt a gafodd wasanaeth gan y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi nodi bod angen iddo sicrhau ei fod yn cofnodi'r data hwn yn gywir.

**Bu gwelliant yn ansawdd gofal ac yng nghysondeb arfer wrth ddarparu gofal cymdeithasol i blant ond mae rhai materion yn parhau o ran ansawdd y data a ddefnyddir i reoli perfformiad**

69 Fe wnaeth AGGCC adrodd fod y Gwasanaethau Plant, yn 2010-11, wedi ail-lunio eu timau a'u systemau gyda system sicrhau ansawdd well. O ganlyniad, mae'r Cyngor yn gallu dangos gwelliannau yn ansawdd gwybodaeth ac yng nghysondeb arfer. Daeth AGGCC i'r casgliad fod arwyddion bod plant sy'n byw yng Nghonwy bellach yn cael help a chymorth mewn modd mwy amserol ac effeithiol nag y byddent wedi'i gael flwyddyn yn ôl. Mae'r Cyngor wedi gwneud newidiadau sylweddol i'w strwythur a'i arfer o ran ei drefniadau darparu mynediad, asesu a rheoli gofal. Fodd bynnag, mae prydlondeb asesiadau craidd wedi gwaethygu a dyma faes i'w wella.

70 Ar 31 Mawrth 2011, roedd y Cyngor yn gofalu am 167 o blant, ychydig o ostyngiad ers y flwyddyn flaenorol. Mae'r Cyngor wedi bod yn gwella'i waith cynllunio dyfodol parhaol ac mae wedi cynyddu nifer y plant sy'n cael eu cyflwyno i'w mabwysiadu a nifer y plant sy'n cael eu dychwelyd i'w rhieni neu sy'n cael cynlluniau parhaol trwy drefniadau cyfreithiol amgen. Fe wnaeth perfformiad y Cyngor mewn rhai agweddau ar gynllunio gofal waethygu yn ystod y flwyddyn, ond mae'r Cyngor yn datgan bod rhai agweddau ar berfformiad sy'n ymddangos yn wael ystod

2010-11, yn enwedig i blant sy'n derbyn gofal, yn adlewyrchu materion yn gysylltiedig â'i brosesau rheoli perfformiad a chofnodi. Mae AGGCC wedi nodi bod angen i'r Cyngor wella cadernid ei systemau rheoli perfformiad a chofnodi fel bod gallu'r Cyngor i werthuso a gwella'i wasanaethau a'i gymorth i blant sy'n derbyn gofal yn well.

71 Mae AGGCC wedi nodi bod cymorth y Cyngor i'r plant sy'n derbyn gofal ganddo a'i gymorth i ofalwyr maeth yn gryfderau. Canfu arolygiad Medi 2010 o gartref plant y Cyngor: fod plant yn cael gofal o ansawdd da; roedd staff wedi'u symbylu; ac roedd y rheolwyr yn defnyddio gwaith monitro'r gwasanaeth i wneud gwelliannau. Canfu arolygiad AGGCC o wasanaeth maethu'r Cyngor yn Ionawr 2011 fod y gwasanaeth yn parhau i gynnig cefnogaeth dda i'r mwyafrif o ofalwyr a'i fod yn parhau i ymdrechu i wella'r gwasanaeth a ddarperir. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod arfer yn nhîm y Cyngor o safon dda iawn a'i fod yn dangos llawer o ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth rhagorol ac ymatebol i ofalwyr maeth. Caiff y cymorth hwn ei adlewyrchu yn y ffaith bod pobl ifanc sy'n derbyn gofal wedi cael llwyddiant sylweddol yn eu canlyniadau TGAU yn 2010.

72 Dywedodd y Cyngor y byddai, fel un o'i amcanion gwella ar gyfer 2010-11, yn 'rhoi cymorth ychwanegol i bobl sy'n gadael gofal ac yn cynorthwyo'r rhai sy'n gadael y System Cyfiawnder Ieuenctid i'w galluogi i chwarae rhan lawn yn ein cymdeithas'. Mae'r Cyngor wedi ail-lunio ei wasanaeth i bobl ifanc sy'n gadael y system gofal, yn enwedig mewn perthynas â'r llety â chymorth sydd ar gael iddynt.

73 Er bod arwyddion o welliant yn y deilliannau addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, mae AGGCC wedi barnu bod angen i'r Cyngor wella'r deilliannau hirdymor fel bod y bobl ifanc hyn yn gallu gwneud y mwyaf o'u cyfleoedd a'u gobeithion bywyd. Yn ystod 2010-11, fe wnaeth y Cyngor gynyddu cyfran y bobl ifanc 19 oed a arferai dderbyn gofal y mae mewn cysylltiad â nhw o hyd i 87.5 y cant. O'r 14 o bobl ifanc yr oedd y Cyngor mewn cyswllt â nhw, roedd 12 mewn 'llety addas, nad yw'n llety brys' ac roedd dau yn y ddalfa. Fodd bynnag, dim ond saith ohonynt oedd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

**Ni wnaeth perfformiad y Cyngor wrth atal digartrefedd a darparu gwasanaethau i bobl ddigartref wella yn ôl y bwriad yn 2010-11**

74 Yn Adroddiad Gwella Blynyddol y llynedd, adroddom fod y Cyngor wedi gwella ei berfformiad wrth atal digartrefedd, ond roedd teuluoedd digartref â phlant yn treulio llawer mwy o amser mewn llety gwely a brecwast nag yn y rhan fwyaf o gynghorau. Mae dangosyddion perfformiad ar gyfer 2010-11 wedi gwaethygu, gyda phob un o'r chwech yn dangos perfformiad a oedd ymhell islaw cyfartaledd Cymru a'r targedau a osodwyd gan y Cyngor. Mae'n ddigon posibl y bydd effaith newidiadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r system fudd-daliadau yn cynyddu lefel y galw ar wasanaeth digartrefedd y Cyngor.

75 Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r risg hon ac wedi cynnwys yr agwedd hon ar ei waith ymhlith ei amcanion gwella ar gyfer 2011-12 ac yn ei Gytundeb Canlyniadau â Llywodraeth Cymru.

## Mae Estyn wedi adrodd bod gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc yn dda gyda rhagolygon gwella da

76 Dywedodd y Cyngor y byddai, yn 2010-11, 'yn sicrhau bod ein plant yn cael yr addysg orau a'r dechrau gorau'n gymdeithasol i'w galluogi i chwarae rhan lawn yn ein cymdeithas'.

77 Arolygydd Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru wasanaethau addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc ym Mawrth 2011. Fe wnaeth arolygwyr farnu bod gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc yn dda oherwydd:

- Mae plant a phobl ifanc yn cyflawni safonau da ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.
- Ychydig iawn o ddysgwyr sy'n gadael ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig ac mae hyn ymhlith y gorau yng Nghymru.
- Mae'r cymorth ar gyfer gwella ysgolion yn dda ac mae hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles yn rhagorol.
- Mae cysylltiadau cadarnhaol a chyfathrebu da rhwng aelodau etholedig ac uwch-swyddogion yn y gwasanaeth addysg. Mae hyn yn cyfrannu at ethos tîm sy'n helpu i gyflawni cynlluniau strategol a chynlluniau busnes y gwasanaeth.

78 Hefyd, barnodd arolygwyr fod rhagolygon gwella da oherwydd:

- Mae'r Cyngor wedi rheoli datblygiad ei Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd yn effeithiol ac wedi rhoi ystyriaeth dda i'r opsiynau ar gyfer aildrefnu'r ddarpariaeth ysgolion uwchradd bresennol.
- Mae gan y Cyngor hanes da o welliant parhaus. Mae wedi ymateb yn dda i'r argymhellion o adroddiadau 2008 Estyn ar wasanaethau addysg a chymorth ieuenctid.

79 Argymhellodd arolygwyr y dylai'r Cyngor, er mwyn parhau i wella:

- parhau i ddatblygu mesurau gwella ansawdd i sicrhau bod gwerthusiadau strategol yn dangos pa mor dda y mae darpariaeth yn diwallu anghenion dysgwyr;
- gwerthuso effaith dirprwyo cyllid ymhellach i ysgolion ar ddeilliannau i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol;
- sicrhau bod meini prawf clir a thryloyw yn cael eu defnyddio ar gyfer dyrannu ysgolion i gategorïau perfformiad amrywiol yn y Cyngor; a
- gwella gwaith monitro'r hyfforddiant ar gyfer amddiffyn a diogelu plant.

80 Mae Estyn wedi dweud wrthym fod perfformiad disgyblion yn 2011, o ystyried ystod o wybodaeth gyd-destunol, tua'r cyfartaledd yng nghyfnodau 1 a 2 (plant saith ac 11 oed), ac yn dda yng nghyfnod allweddol 3 (disgyblion 14 oed). Yng nghyfnod allweddol 3, dim ond un ysgol sydd yn yr hanner isaf ac nid oes un ysgol yn y chwarter isaf o gymharu ag ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae data ar gyfer cyfnod allweddol 4 (disgyblion 16 oed) yn awgrymu bod perfformiad yn dda yn gyffredinol. Mae perfformiad yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, yn ôl yr hawl i brydau ysgol am ddim, wedi bodloni neu ragori ar bron pob un o feincnodau Llywodraeth Cymru ar gyfer y pedair blynedd hyd at 2010.

81 Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn dda. Mae wedi gwella'n gyson dros y pedair blynedd diwethaf ac yn 2011, dyma oedd yr ail uchaf yng Nghymru. Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi parhau'n gyson ac mae ymhlith hanner uchaf cynghorau Cymru. Mae nifer y gwaharddiadau o ysgolion wedi gostwng yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf ond mae nifer y diwrnodau sy'n cael eu colli o'r ysgol gan ddisgyblion oherwydd gwaharddiadau o chwe diwrnod neu fwy yn parhau'n uchel o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru.

82 Ers i Estyn gynnal ei arolygiad ym Mawrth 2011, mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio ei menter Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif i adlewyrchu'r gostyngiad mewn cyllid cyfalaf sydd ar gael. Roedd gofyn i gynghorau gyflwyno strategaethau diwygiedig ar gyfer cyfnod chwe blynedd, ac yn ystod y cyfnod hwnnw byddai disgwyl iddynt gyfrannu 50 y cant o'r cyfalaf gofynnol, yn hytrach na'r 30 y cant a fwriadwyd yn wreiddiol. Mae strategaeth ddiwygiedig y Cyngor wedi denu bron £9 miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru er mwyn gwella ansawdd adeiladau ysgol ym mhedair ardal yn y sir. Mae'r swm hwn yn ychwanegol at yr £16 miliwn o gyfalaf Llywodraeth Cymru y rhoesom wybod amdano'r llynedd, ac a fydd yn cyfrannu at ailddatblygu unig ysgol arbennig Conwy.

83 Yn y cyfamser, mae'r Cyngor wedi cytuno i gau dwy ysgol arall. Ym mis Ionawr 2011, roedd 18.6 y cant o'r lleoedd ysgol yng Nghonwy yn wag, ychydig yn llai na'r cyfartaledd ar draws Cymru.

84 Mae cost addysg ysgol gynradd fesul disgybl[2] wedi cynyddu yn 2011-12 i £5,077, y trydydd uchaf o blith holl gynghorau Cymru. Y gost gyfwerth ar gyfer ysgolion uwchradd yw £4,938 y disgybl, ymhell uwchlaw'r cyfartaledd i Gymru a chynnydd o bump y cant o gymharu â 2010-11. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd hwn mewn gwariant ar ysgolion yn adlewyrchu cynnydd tebyg yng ngwariant cyffredinol y Cyngor ar addysg, a gynyddodd 0.1 y cant yn unig yn 2011-12. Yn hytrach, mae'n cynrychioli trosglwyddo adnoddau i 'wasanaethau rheng flaen', yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.

85 Hefyd, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da tuag at fodloni targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru i gynyddu cyfran y cyllid addysg sy'n cael ei ddirprwyo i ysgolion. Felly, mae cyllidebau dirprwyedig ysgolion ar gyfer 2011-12, o ganlyniad, yn sylweddol uwch fesul disgybl nag yr oeddent yn 2010-11. Ar lefel o £4,215 fesul disgybl ysgol gynradd a £4,564 fesul disgybl ysgol uwchradd, mae'r rhain yn ail a phedwerydd uchaf yn y drefn honno o blith cynghorau Cymru. Dim ond ychydig o ddefnydd y bu'n rhaid i ysgolion ei wneud o'r cronfeydd wrth gefn sylweddol y maent wedi'u cronni yn y gorffennol; yn ystod 2010-11, fe wnaeth lefel cronfeydd wrth gefn ysgolion ddisgyn £0.1 miliwn i £4.4 miliwn. Mae hyn yn parhau ar lefel o £284 y disgybl, sef y lefel uchaf o gronfeydd wrth gefn sy'n cael eu dal gan ysgolion yng Nghymru.

2 Tynnwyd y ffigurau o Ffurflenni Cyfrif Refeniw, ac maent yn cynnwys gwariant wedi'i ddirprwyo a heb ei ddirprwyo a ddyrannwyd i ysgolion cynradd, gan gynnwys grantiau penodol.

## Mae perfformiad yn parhau i wella yn y rhan fwyaf o agweddau ar waith y Cyngor i wella ffyniant y sir ac i gynnal yr ardal yn lle diogel a dymunol

86 Mae hanner y 10 amcan gwella a osodwyd gan y Cyngor ar gyfer 2010-11 yn ymwneud yn uniongyrchol â helpu i greu a chynnal yr ardal yn lle ffyniannus, diogel a dymunol. Dim ond un o'r rhain oedd yn perthyn yn benodol i greu a chynnal diogelwch yn yr ardal; dywedodd y Cyngor y byddai'n siarad â'i gymunedau am y tebygolrwydd o lifogydd ac erydu arfordirol, a chanlyniadau posibl hynny. Rydym eisoes wedi trafod gwaith y Cyngor yn y maes hwn mewn rhan arall o'r adroddiad hwn.

87 Serch hynny, fe wnaeth y Cyngor gyflawni nifer o fentrau yn ystod 2010-11 sy'n hyrwyddo diogelwch. Er enghraifft, mae'r Cyngor wedi:

- gosod CCTV mewn ardal a oedd wedi dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- cyflawni gwelliannau i ddiogelwch y ffyrdd, cynlluniau llwybrau diogel i'r ysgol a gwelliannau i ddodrefn ac arwyddion stryd; ac
- wedi cymryd camau tuag at ostwng ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag economi'r nos.

88 Dau o amcanion gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-11 oedd:

- datblygu cynllun twristiaeth sy'n cynnwys y sir gyfan sy'n hyrwyddo ac yn gwneud y defnydd gorau o'n hamgylchedd naturiol ac adeiledig, ein cyfleusterau a'n diwylliant, ein treftadaeth a'n hiaith, mewn ffordd gydgysylltiedig; a
- gweithio gyda phartneriaid a'r sector busnes yn rhanbarthol ac yn isranbarthol, i ddatblygu ardaloedd busnes allweddol sy'n ategu ein cymdogion, gan sicrhau economi leol amrywiol, gytbwys er mwyn adfywio cymunedau a chynnig swyddi o safon a fydd yn cyfrannu at gadw pobl iau yn yr ardal.

89 Mae twristiaeth yn chwarae rôl bwysig yn economi'r sir, ynghyd â bod yn sbardun ar gyfer sicrhau bod yr ardal yn lle dymunol i fyw ynddi ac ymweld â hi. Mae rhan y Cyngor yn y rhaglen Môr Glas[3] yn helpu i wella mynediad, cyfleusterau a'r wybodaeth a ddarperir ar draethau yn yr ardal. Mae Parc Eirias, y mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd yn gartref i ddigwyddiadau chwaraeon a digwyddiadau diwylliannol mawr, wedi agor yn swyddogol yn ddiweddar ac mae gwelliannau i lan dŵr a chanol tref Bae Colwyn yn parhau. Fe wnaeth nifer y twristiaid a ymwelodd â'r sir ar gyfer arosiadau dros nos gynyddu tua 10 y cant yn ystod 2010-11 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac fe wnaeth y gwariant lleol amcanol gan dwristiaid godi o £579 miliwn i £596 miliwn. Mae'r rhain yn arwyddion calonogol ar gyfer twristiaeth yn yr ardal.

90 Mae'r Cyngor wedi cynnal nifer o weithdai gyda busnesau, gyda'r nod o fynd i'r afael â 'bylchau sgiliau' – sef y diffyg cyfatebiaeth rhwng y sgiliau y mae ar fusnesau lleol eu hangen a'r sgiliau sydd ar gael yn y gweithlu. Yn 2010-11, cymerodd 469 o fusnesau ran yn y gweithdai hyn, cynnydd sylweddol o'r 64 o fusnesau a gymerodd ran y flwyddyn gynt. Fodd bynnag, nid oes gwybodaeth ar gael yn

3 Partneriaeth traws-sector ar gyfer diogelu a gwella amgylchedd arfordirol Cymru, wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru.

lleol ynghylch effaith y gweithdai hyn ar gau'r bwlch sgiliau yn lleol.

91 Fe wnaeth nifer y busnesau yn yr ardal a gefnogwyd gan y Cyngor neu gan Lywodraeth Cymru gynyddu o 1,130 i 1,287 yn ystod 2010-11, ac fe wnaeth nifer y swyddi a grëwyd o ganlyniad godi o 20 i 25. Rhoddodd y Cyngor grantiau i 33 busnes newydd, ac fe wnaeth cyllid cydgyfeiriant Ewropeaidd[4] gefnogi 53 busnes arall. Roedd hyn yn golygu bod nifer y busnesau a gafodd gefnogaeth ariannol wedi cynyddu'n sylweddol o 27 yn 2009-10 i 86 yn 2010-11. Mae'r cyfraddau meddiannu unedau busnes yn uchel a gwnaethant gynyddu ychydig o 94.5 y cant i ychydig dros 95 y cant.

92 O'u hystyried gyda'i gilydd, mae'r ffigurau hyn yn awgrymu bod y Cyngor yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol, er nad yw'r mesurau y mae'r Cyngor wedi'u dewis yn ddigon penodol i ddangos cynnydd tuag at ei amcan gwella, sef 'sicrhau.....economi leol amrywiol....a swyddi o safon a fydd yn cyfrannu at gadw pobl yn yr ardal'. Nid yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw ddefnydd yn ei asesiad ei hun o'i berfformiad o ran mesurau fel cyfraddau diweithdra lleol i'w helpu i asesu a yw ffyniant ei ddinasyddion yn gwella.

93 Dywedodd y Cyngor y byddai, fel un o'i amcanion gwella ar gyfer 2010-11, yn 'arwain y ffordd mewn gwneud yn siŵr ein bod yn cyfrannu tuag at ddyfodol cynaliadwy'. Mae delio â gwastraff yn elfen bwysig o waith y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r amcan hwn. Fe wnaeth y Cyngor ostwng cyfran y gwastraff trefol a anfonir i safleoedd tirlenwi i 57.4 y cant yn 2010-11. Roedd y gwelliant hwn mewn perfformiad yn well na tharged y Cyngor, ond mae'r Cyngor yn parhau i anfon mwy o wastraff i safleoedd tirlenwi na'r rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru. Yn rhannol o ganlyniad, mae cyfran y gwastraff trefol a gesglir sy'n cael ei baratoi i'w ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu hefyd islaw cyfartaledd Cymru, a dim ond ychydig o gynnydd y bu iddo o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

94 Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi bod yn cynyddu cwmpas ei weithgarwch casglu gwastraff ailgylchadwy ar garreg y drws. Yn dilyn cynllun peilot, mae'r Cyngor bellach wedi cyflwyno'i gynllun newydd ar draws y sir gyfan. Ni fydd unrhyw welliannau i'w ddangosyddion perfformiad sy'n deillio o'r buddsoddi hyn i'w gweld tan 2011-12. Yn y cyfamser, mae'r Cyngor yn parhau i weithio gyda phedwar cyngor arall yng ngogledd Cymru i sefydlu'r gallu i drin gwastraff gweddilliol a gwastraff bwyd.

95 Fel cyfraniad pellach at yr amcan gwella hwn, mae'r Cyngor wedi bod yn ceisio gostwng lefel yr allyriadau CO2 yn ei stoc adeiladau cyhoeddus nad ydynt yn gartrefi. Yn dilyn cynnydd o 8.4 y cant mewn allyriadau yn 2009-10, mae'r Cyngor eleni wedi adrodd gostyngiad sylweddol o 11.4 y cant yn ei allyriadau CO2. Fodd bynnag, mae archwilwyr y Cyngor wedi mynegi amheuon ynghylch cywirdeb data'r Cyngor yn y dangosydd perfformiad hwn.

96 Mae gwaith cadw ffyrdd, mannau agored a thraethau'r sir yn lân yn bwysig i drigolion ac i waith hyrwyddo twristiaeth y Cyngor. Mae'r rhan fwyaf o agweddau ar y gwaith hwn yn mynd yn eu blaenau'n dda. Er enghraifft:

4 Cyllid Ewropeaidd, a ddisodlodd gyllid Amcan Un.

- Fe wnaeth y ‘mynegai glendid’[5] gynyddu o 74.5 i 76 yn 2010-11, sef y gwerth trydydd uchaf yng Nghymru. Y Cyngor oedd y sir lanaf yng Nghymru yn ôl Cadwch Gymru’n Daclus.
- Fe wnaeth canran yr achosion o dipio anghyfreithlon a gliriwyd o fewn pum diwrnod gwaith gynyddu o 96.5 i 97.4, ychydig yn well na chyfartaledd Cymru.

97 Mae’r Cyngor wedi cyflwyno nifer o ddangosyddion perfformiad lleol defnyddiol i gyfrannu at ei asesiad o’i berfformiad wrth gynnal ansawdd yr amgylchedd. Mae’r mesurau hyn, fel pa mor gyflym y mae’r Cyngor yn ymateb i geisiadau i gael gwared â sbwriel a delio â chyfarpar miniog[6], yn adlewyrchu pryderon lleol. Hefyd, mae’r Cyngor wedi dechrau defnyddio mesurau boddhad y cyhoedd yn ei werthuso. Mae’r datblygiadau hyn yn adlewyrchu dylanwad cynyddol ymgysylltu â’r cyhoedd ar draws y Cyngor.

5 Mae’n dynodi safon glendid cyffredinol ffyrdd mabwysiedig a thir perthnasol mewn awdurdod lleol. Mae’r raddfa rhwng 0 a 100 ac mae sgorau uwch yn arwyddo o lendid gwell.
6 Eitemau fel nodwyddau hypodermig.

## Mae trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor drwy gydol y flwyddyn yn cyfrannu'n dda at ddiwylliant o hunanwerthuso, ond nid yw'r diwylliant hwn yn cael ei adlewyrchu'n llawn yn yr hunanasesiad blynyddol

98 Mae rheolaeth y Cyngor o'i berfformiad drwy gydol y flwyddyn yn awgrymu yn wir ei fod yn myfyrio ar ei berfformiad ac yn gweithredu yn unol â hynny. Rydym wedi cyfeirio mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn at rai o'r cryfderau hyn. Yn benodol:

- mae adolygiadau ddwywaith y flwyddyn y Cyngor o berfformiad gwasanaethau yn cynnig cyfleoedd effeithiol i gynghorwyr ac uwch swyddogion herio a deall perfformiad gwasanaethau unigol;
- lle bo pryderon sylweddol yn codi, cânt eu nodi a'u rheoli o fewn fframwaith rheoli risg y Cyngor; a
- thrwy ei fenter 'Chwe Thema Allweddol', mae'r Cyngor yn creu cyfleoedd i staff o bob rhan o'r sefydliad fyfyrio ar sut gallai agweddau allweddol ar lywodraethu gael eu gwella, a sut gallai hynny gael ei gyflawni.

99 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi pennu bod y Cyngor wedi cyflawni ei holl ddyletswyddau mewn perthynas â chyhoeddi gwybodaeth am welliant. Cyhoeddodd yr Awdurdod ei gynllun gwella blynyddol (*Bod yn atebol am yr hyn rydym yn ei wneud. Ein perfformiad yn ystod 2010 - 2011*) ar 21 Hydref 2011. Yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru, fe wnaeth y Cyngor hefyd gyhoeddi adroddiad cryno byrrach (*Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni*).

100 Er ei bod yn gytbwys at ei gilydd, mae'r sylwebaeth yn yr hunanasesiad a'i grynodeb yn tueddu i ganolbwyntio'n fwy ar lwyddiannau'r Cyngor nag ar y meysydd hynny lle bu'n tanberfformio. Caiff y duedd hon ei hadlewyrchu i raddau yn y ffaith nad yw'r un o'r dangosyddion perfformiad y mae adroddiadau arnynt yn ymddangos mewn lliw coch yn y ddogfen er eu bod, mewn rhai achosion, wedi methu bodloni targed y Cyngor.

101 Dywedom yn Adroddiad Gwella Blynyddol y llynedd fod llawer o amcanion gwella'r Cyngor wedi'u geirio mewn ffordd a wnaeth arfarniad clir o lwyddiant yn anodd iawn. O ganlyniad, nid yw'r 'mesurau llwyddiant' a ddewiswyd gan y Cyngor fel y rhai mwyaf defnyddiol ar gyfer mesur ei gynnydd yn rhoi digon o dystiolaeth, mewn sawl achos, i farnu'n bendant a gafodd yr amcan ei fodloni ai peidio. Rydym wedi cyfeirio'n gynt yn yr adroddiad hwn at y ffaith bod y Cyngor wedi dechrau mynd i'r afael â'r materion hyn yn ei amcanion gwella ar gyfer 2011-12 ac yn y mesurau a ddewiswyd i farnu llwyddiant.

102 Yn ei hunanasesiad, mae'r Cyngor wedi cynnwys cymariaethau defnyddiol, lle bônt ar gael, o'i berfformiad o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru a'r cyfartaledd yng Nghymru. Nid oes cymhariaeth o'r fath yn bosibl yn achos y dangosyddion lleol niferus y mae'r Cyngor wedi'u cyflwyno. Fodd bynnag, mae defnyddio dangosyddion o'r fath yn aml yn adlewyrchu blaenoriaethau a phryderon lleol. Yn ogystal â'i berfformiad yn 2010-11, mae'r Cyngor wedi cynnwys data ar gyfer y ddwy flwyddyn flaenorol yn ei hunanasesiad, gan ganiatáu i ddarllenwyr farnu ei berfformiad presennol yng nghyd-destun tuedd tymor hwy.

103 Er bod hunanasesiad y Cyngor yn cynnig sylwebaeth ar ei berfformiad, nid yw'n dweud yn glir sut y defnyddiwyd y sylwadau a'r cymariaethau i ennill gwersi o'r meysydd hynny o berfformiad arbennig o lwyddiannus ac i nodi sut gallai meysydd gwannach o berfformiad gael eu gwella. I'r perwyl hwnnw, nid yw'r hunanasesu mor arfarnol ag y gallai fod.

# Atodiadau



# Atodiad 1
# Statws yr adroddiad hwn

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ymgymryd ag Asesiad Gwella blynyddol, ac i gyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio gan yr Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19 i gyhoeddi adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal Asesiad Gwella o dan adran 18 a datgan a ydyw, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, o'r farn fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr Asesiad Gwella ei lywio gan asesiad blaengar o ba mor debygol yw awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i weld a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llywio barn ynglŷn â sut lwyddodd yr awdurdod i wella. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi crynodeb o gasgliadau'r Archwilydd Cyffredinol am hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), a bydd yn cyflwyno adroddiad amdanynt i'r awdurdodau a'r gweinidogion perthnasol, a gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau arolygiadau arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Fe all yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Gonwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## Y Cyngor

Yn 2010-11, cyfanswm gwariant refeniw y Cyngor, yn cynnwys grantiau penodol, oedd £258 miliwn. Mae hyn yn gyfystyr â thua £2,327 fesul preswylydd, yr ail uchaf o blith chwe chyngor gogledd Cymru ac ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer cynghorau yng Nghymru. Yn yr un flwyddyn, gwariodd y Cyngor £23 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Yn 2010-11, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D yng Nghonwy oedd £1,049.64, gan gynnwys praeseptau'r Heddlu a Chynghorau Cymuned. Mae hyn wedi cynyddu 3.71 y cant i £1,088.63 ar gyfer 2011-12 ond mae'n parhau'n un o'r isaf yng Nghymru. Mae saith deg un y cant o dai yng Nghonwy ym mandiau A i D y dreth gyngor.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 59 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau am flaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Mae'r Cyngor yn cynnwys aelodau o'r grwpiau gwleidyddol canlynol:

- 18 o Geidwadwyr
- 15 Annibynnol
- 14 o Blaid Cymru
- 7 o'r Blaid Lafur
- 5 Democrat Rhyddfrydol

Mr Iwan Davies yw Prif Weithredwr y Cyngor. Caiff ei gynorthwyo gan ddau Gyfarwyddwr Strategol, Mr Ken Finch a Mr Andrew Kirkham. Mae'r Cyngor yn cyflogi 4,724 o staff, gan gynnwys athrawon a staff eraill mewn ysgolion. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o ryw 270 ers y llynedd, er bod nifer y swyddi amser llawn wedi gostwng.

## Gwybodaeth arall

Dyma Aelodau'r Cynulliad sy'n cynrychioli etholaethau Conwy:

- Janet Finch-Saunders – Aberconwy, Y Ceidwadwyr
- Darren Millar – Gorllewin Clwyd, Y Ceidwadwyr

Dyma'r Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli etholaethau Conwy:

- Guto Bebb – Aberconwy, Y Ceidwadwyr
- David Jones – Gorllewin Clwyd, Y Ceidwadwyr

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan y Cyngor yn www.conwy.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Swyddfeydd y Cyngor, Bodlondeb, Ffordd Bangor, Conwy, LL32 8DU, neu dros y ffôn ar 01492 574000.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mae gan etholwyr lleol a phobl eraill hawl i edrych ar gyfrifon y Cyngor. Pan fydd y Cyngor wedi cwblhau ei gyfrifon am y flwyddyn ariannol flaenorol, o gwmpas mis Mehefin neu fis Gorffennaf fel arfer, mae'n rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Gallwch gael copïau o'r cyfrifon gan y Cyngor; gallwch hefyd archwilio pob llyfr, gweithred, contract, bil, taleb a derbynneb sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar ôl trefnu eu bod ar gael. Gallwch ofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon am y flwyddyn mae'n eu harchwilio. Er enghraifft, gallwch yn syml iawn ddweud wrth yr archwilydd os credwch fod rhywbeth yn anghywir â'r cyfrifon neu am wastraff ac aneffeithlonrwydd yn y modd y mae'r Cyngor yn rhedeg ei wasanaethau. I gael rhagor o wybodaeth gweler taflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau*, ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

Ysgrifennodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol at Arweinydd y Cyngor fel a ganlyn ar 17 Tachwedd 2011.

**Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Fel y byddwch yn gwybod, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol i bob awdurdod lleol erbyn diwedd mis Ionawr 2012, a bydd rhai o'r materion yr adroddwyd amdanynt yn draddodiadol yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Felly, rydym wedi cymryd y cyfle i grynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Penodedig yn y llythyr byr hwn, sef y Llythyr Archwilio Blynyddol. Bwriadwyd i'r llythyr fod yn ddogfen annibynnol ond fe'i cyflwynir hefyd i'r Cyngor ac i'r cyhoedd fel rhan o'r Cynllun Gwella Blynyddol, ac felly mae'n cyflawni ein cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy â'i gyfrifoldebau o ran cyflwyno adroddiad ariannol a defnyddio adnoddau

**1** Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu trefniadau priodol a'u hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

**2** Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r archwilydd penodedig:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau ei fod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

3 Ar 30 Medi 2011 rhoddodd yr Archwilydd Penodedig farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion ariannol y Cyngor. Cynhwysir yr adroddiad hwn yn y Datganiad o Gyfrifon. Cafodd nifer o faterion yn codi o'r archwiliad o'r cyfrifon eu hadrodd i aelodau yn ein hadroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol.

4 O 2010-11 mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru lunio'u cyfrifon ar sail Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Yn sgil cyflwyno'r safonau newydd hyn gosodwyd gofynion ychwanegol sylweddol ar staff cyllid y Cyngor. Er gwaetha'r pwysau ychwanegol hyn, paratowyd y cyfrifon erbyn y terfyn amser statudol.

5 Mae ein hadolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

6 Nid ydym wedi gallu cwblhau archwiliad 2010-11 gan fod cwestiynau a gwrthwynebiadau a godwyd gan etholwyr ynghylch ystod o feysydd gweithredu'r Cyngor heb eu datrys. Rydym wedi ymgymryd â gwaith rhagarweiniol yn gysylltiedig â'r rhan fwyaf o'r rhain a disgwyliwn ddod i gasgliad yn eu cylch yn fuan.

7 Yn ogystal, ni allaf gau archwiliad 2009-10 ar hyn o bryd. Mae dau wrthwynebiad heb eu datrys; un ynghylch rheoli contract y disgwyliaf iddo gael ei ddatrys yn sgil cyhoeddi adroddiad yn fuan, ac un ynghylch gwariant ar Bier Bae Colwyn, y gwnaeth aelod o'r cyhoedd apelio i'r llys ynghylch penderfyniad yr archwilwyr i beidio â gwneud cais i'r llys am ddatganiad bod eitem o gyfrif yn anghyfreithlon.

8 Disgwylir ar hyn o bryd i ffi'r archwiliad ariannol ar gyfer 2010-11 gyd-fynd â'r ffioedd a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol. Fodd bynnag, caiff ffioedd ychwanegol eu codi i ddelio â'r gwrthwynebiadau a godwyd. Hyd yn hyn, y gost i'r Cyngor yw £27,000 ar gyfer cyfrifon 2009-10 a £10,000 ar gyfer 2010-11. Bydd costau pellach ynghlwm wrth ddelio ag apêl y gwrthwynebydd i'r llys.

Ian Pennington
Cyfarwyddwr, KPMG LLP

Ar gyfer ac ar ran yr Archwilydd Penodedig

17 Tachwedd 2011

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## Amcanion gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer 2011-12

1 Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau mae'n eu darparu. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

2 Cytunodd y Cyngor ar ei amcanion gwella ar gyfer 2011-12 ym mis Mai 2011 a'u halinio â'r amcanion a gyflwynwyd yn ei Gytundeb Canlyniadau â Llywodraeth Cymru. Mae'r manylion ar gael ar wefan y Cyngor yn www.conwy.gov.uk. Caiff yr amcanion gwella eu grwpio o dan saith pennawd bras:

- Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir lle mae'r iaith Gymraeg, a threftadaeth a diwylliant Cymru yn ffynnu.
- Mae pobl yng Nghonwy'n iach.
- Mae pobl yng Nghonwy'n cael eu haddysgu ac mae ganddynt sgiliau.
- Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy.
- Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir sydd ag economi ffyniannus.
- Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn cartrefi diogel ac addas.
- Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn cymuned deg, gynhwysol a gwybodus.

## Hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o berfformiad yn 2010-11

3 Gosododd y Cyngor 10 amcan gwella ar gyfer 2010-11. Dywedodd y Cyngor:

- Byddwn yn hyrwyddo yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru fel y bydd ein plant yn ymfalchïo yn eu treftadaeth – eu 'Cymreictod' – ac yn fodlon rhannu hyn gyda'u teuluoedd, eu cymunedau a phobl sy'n ymweld â'r ardal.
- Byddwn yn darparu cynllun twristiaeth sy'n cynnwys y sir gyfan sy'n hyrwyddo ac yn gwneud y defnydd gorau o'n hamgylchedd naturiol ac adeiledig, ein cyfleusterau a'n diwylliant, ein treftadaeth a'n hiaith, mewn ffordd gydgysylltiedig.
- Byddwn gweithio gyda phartneriaid a'r sector busnes yn rhanbarthol ac yn isranbarthol, i ddatblygu ardaloedd busnes allweddol sy'n ategu ein cymdogion, gan sicrhau economi leol amrywiol, gytbwys er mwyn adfywio cymunedau a chynnig swyddi o safon a fydd yn cyfrannu at gadw pobl iau yn yr ardal.
- Os ydych yn hŷn, byddwn yn eich helpu i barhau'n annibynnol a chadw eich lle yn eich cymuned.

- Byddwn yn sicrhau bod ein plant yn cael yr addysg orau a’r dechrau gorau’n gymdeithasol i’w galluogi i chwarae rhan lawn yn ein cymdeithas.
- Byddwn yn rhoi cymorth ychwanegol i bobl Ifanc sy’n gadael gofal yn ogystal â’r rhai sy’n ymuno â’r System Cyfiawnder Ieuenctid, a’r rhai sy’n ei gadael, i’w galluogi i chwarae rhan lawn yn ein cymdeithas.
- Byddwn yn cydweithio â busnesau lleol i ganfod bylchau mewn sgiliau. Byddwn wedyn yn helpu pobl i wella’u sgiliau a chael gwaith, fel eu bod yn llai dibynnol ar fudd-daliadau diweithdra, a’u bod yn gwella’u lles meddyliol a chorfforol, yn ogystal â chynyddu eu hincwm gwario.
- Byddwn yn trafod y tebygolrwydd o lifogydd ac erydiad yr arfordir a goblygiadau posibl hynny, gyda’n cymunedau.
- Byddwn yn gwneud y defnydd gorau posibl o’n technoleg i ddiweddaru’r ffordd rydym yn gweithio a lleihau’n defnydd o bapur.
- Byddwn yn arwain y ffordd mewn gwneud yn siŵr ein bod yn cyfrannu at ddyfodol cynaliadwy.

4 Mae hunanasesiad y Cyngor o’i berfformiad i’w weld yn ei *Adroddiad Blynyddol – 2010-2011*, sydd ar gael ar wefan y Cyngor.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk